OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 872

# Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2004

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003**

**5.**—(1) Caiff rheoliad 8 ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1) mewnosoder ar ôl y geiriau "o hyd" y geiriau ", neu, yn ddarostyngedig i baragraff (1A), dau hanner tymor ysgol,".

(3) Mewnosoder y canlynol ar ôl paragraff (1) —

> "(1A) Os yw cyfnod o gyflogaeth o dan baragraff (1) yn ddau hanner tymor ysgol yna mae'n rhaid i'r ddau hanner tymor ysgol hynny ddilyn ei gilydd (gan anwybyddu gwyliau ysgol).".

(4) Ym mharagraff (2) mewnosoder ar ôl y geiriau "o hyd" y geiriau ", neu, yn ddarostyngedig i baragraff (2A), dau hanner tymor,".

(5) Mewnosoder y canlynol ar ôl paragraff (2) —

> "(2A) Os yw cyfnod o gyflogaeth o dan baragraff (2) yn ddau hanner tymor yna mae'n rhaid i'r ddau hanner tymor hynny ddilyn ei gilydd (gan anwybyddu gwyliau).".

(6) Ar ddiwedd paragraff (3) ychwaneger y canlynol —

"neu o fewn 2 wythnos o gychwyn y cyfnod".